# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 5 Gorffennaf 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 151(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Weinidog yr Economi

Sarah Murphy (Pen-y-bont ar Ogwr): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad mewn ymateb i'r cyhoeddiad gan Zimmer Biomet y bydd yn rhoi'r gorau i weithgynhyrchu yn ei ffatri ym Mhen-y-bont ar Ogwr?

Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn dilyn y dystiolaeth a roddwyd gan y Prif Weinidog a Gweinidog yr Economi ynghylch diffyg parodrwydd ar gyfer y pandemig yng Nghymru yn ymchwiliad Covid-19 y DU ddoe?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i nodi'r adroddiad blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd ar gyfer 2022-23 - Gohiriwyd

(0 munud)

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Gwasanaethau epilepsi

(60 munud)

**NDM8273** Luke Fletcher (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) bod cyffredinrwydd epilepsi ledled Cymru yn 1 y cant (tua 32,000 o bobl ag epilepsi), gydag amrywiad lleol yn gysylltiedig â lefelau amddifadedd;

b) bod 11.5 o nyrsys arbenigol epilepsi cyfwerth ag amser cyfan yng Nghymru, sy'n cyfateb i gymhareb o 1 nyrs i bob 2,823 o gleifion;

c) bod adroddiad Steers (2008) yn argymell cymhareb o 300 o gleifion i un nyrs arbenigol epilepsi a fyddai'n cyfateb i gyfanswm o 107 o nyrsys arbenigol epilepsi yng Nghymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cefnogi mesurau i leihau amseroedd aros presennol i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio gwasanaethau epilepsi;

b) cefnogi gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru, drwy sicrhau bod y lefelau staffio ar draws byrddau iechyd Cymru yn cael adnoddau priodol i gyflawni a chynnal cynaliadwyedd, diogelwch cleifion, ac ansawdd gwasanaeth.

Report of the Welsh Neuroscience External Expert Review Group Recommendations for Mid and South Wales (Saesneg yn unig)

**Cefnogwyr**

Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Joel James (Canol De Cymru)

Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Sioned Williams (Gorllewin De Cymru)

Tom Giffard (Gorllewin De Cymru)

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - Y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg

(60 munud)

**NDM8314** Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 'Y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mai 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2023.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Gwasanaeth Iechyd Gwladol

(60 munud)

**NDM8315** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn dathlu 75 mlynedd ers creu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

2. Yn nodi rhybudd Cymdeithas Feddygol Prydain bod gwasanaethau meddygon teulu a Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru mewn argyfwng ac mewn perygl o chwalu.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau 75 mlynedd nesaf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol drwy ddiwallu anghenion cleifion a staff a chynnal yr egwyddor graidd o fod yn am ddim lle bynnag y bo'i angen.

Achubwch Ein Meddygfeydd, PMT Cymru – Cymdeithas Feddygol Prydain

Llythyr gan Gymdeithas Feddygol Prydain at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod preifateiddio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn fygythiad sylfaenol i'n gwasanaeth iechyd ac y dylai darparu gofal iechyd am ddim lle bynnag y bo'i angen barhau i fod yr egwyddor wrth wraidd darpariaeth gofal iechyd yng Nghymru.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8312** Samuel Kurtz (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)

Ôl troed y fyddin yng Nghymru: pwysigrwydd y lluoedd arfog i hunaniaeth Cymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf 2023

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 28/06/2023 i'w hateb ar 05/07/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD

**Ken Skates** *De Clwyd*

1 OQ59771 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi bioamrywiaeth yng Nghymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

2 OQ59773 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwella cysylltedd rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

3 OQ59806 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yng Nghymru?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

4 OQ59789 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella diogelwch ar y ffyrdd yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

5 OQ59778 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i ymgyrch sydd â'r nod o gynyddu nifer y bobl sy'n teithio ar fysiau, yn dilyn cyhoeddi'r gronfa bontio ar gyfer bysiau?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

6 OQ59795 **(w)**

Pa drafodaethau mae’r Gweinidog wedi'u cael gyda Chyngor Caerdydd a phartneriaid eraill ynglŷn ag ehangu mannau gwyrdd cymunedol yng Nghaerdydd?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

7 OQ59803 **(w)**

Pa gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion gwledig yn Arfon sydd yn ceisio annog mwy o deithio llesol i'r ysgol?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

8 OQ59799 (e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n parhau ym mhwll glo brig Ffos-y-frân?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

9 OQ59788 (e)

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r buddion i genedlaethau'r dyfodol a fydd yn deillio o gronfeydd pensiwn sector cyhoeddus Cymru yn dadfuddsoddi o danwydd ffosil?

**Peter Fox** *Mynwy*

10 OQ59798 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i alluogi datgarboneiddio seilwaith Cymru?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

11 OQ59797 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol ynghylch datgarboneiddio eu fflydoedd cerbydau?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

12 OQ59782 (w)

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan bobl ag anableddau dysgu fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus?

## GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

1 OQ59777 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chyngor Sir Ddinbych ynghylch darparu cyfleusterau cegin a bwyta digonol ar gyfer ysgolion yn Sir Ddinbych?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ59793 (e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at darged Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

3 OQ59796 **(w)**

Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi'u cynnal gyda'r sector addysg uwch ynglŷn â rôl prifysgolion yn strategaeth Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd eleni, 'Cymru’n arloesi: creu Cymru gryfach, decach, a gwyrddach'?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

4 OQ59805 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned yng Nghymru?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

5 OQ59787 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn annog dysgwyr i barhau i astudio'r gwyddorau tan eu bod yn 18 oed?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

6 OQ59783 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghanol De Cymru yn derbyn yr addysg a'r gefnogaeth y maent eu hangen?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

7 OQ59779 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch darparu cludiant ysgol yn unol â'r Mesur Teithio i Ddysgwyr yn dilyn y cyhoeddiad am y gronfa bontio ar gyfer bysiau?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OQ59784 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynigion gan Gymwysterau Cymru ar gyfer TGAU gwyddoniaeth gradd unigol?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

9 OQ59790 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella llythrennedd ariannol mewn ysgolion yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Joel James** *Canol De Cymru*

10

## OQ59791 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am newidiadau i TGAU gwyddoniaeth yng Nghymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

11

## OQ59774 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i atal gwahaniaethu yn erbyn disgyblion awtistig mewn lleoliadau addysg?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

12

## OQ59786 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch yr effaith y mae rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus Cymru yn ei chael ar fynediad plant at addysg?